

Hysbysiad Preifatrwydd: Aelodau'r Panel Ymgynghorol

Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn esbonio sut bydd Comisiynydd Plant Cymru yn trin eich gwybodaeth bersonol, yn unol â Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data a Deddf Diogelu Data 2018.

Casglu eich gwybodaeth bersonol

Dyma'r wybodaeth bersonol y byddwn ni'n ei chasglu gennych ac yn ei defnyddio wedyn ('prosesu'):

- Enw llawn
- Cyfeiriad postio
- Cyfeiriad e-bost
- Rhifau ffôn cyswllt
- Addysg
- Cymwysterau
- Hanes cyflogaeth
- Aelodaeth broffesiynol
- C.V.
- Gwybodaeth am gydraddoldeb
- Datganiadau perthnasol ynghylch cofnodion troseddol

Sut rydym ni'n defnyddio ('prosesu') eich gwybodaeth

Byddwn ni'n defnyddio eich gwybodaeth i gyflawni ein rhwymedigaethau contractiol gan gynnwys:

- Ystyried eich mynegiant o ddiddordeb mewn dod yn aelod o baned ymgynghorol y Comisiynydd
- Ceisio cyngor, cefnogaeth ac arweiniad gennych fel aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd
- Ad-dalu unrhyw gostau a ddaw i'ch rhan yng nghyswllt bod yn aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd
- Sicrhau ein bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth arall berthnasol, gan gynnwys ein dyletswyddau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010

Rhannu a derbyn eich gwybodaeth

Gall unrhyw gyngor neu farn a fynegwch gael eu rhannu ar wahanol adegau gyda thîm staff y Comisiynydd, yng nghofnodion cyfarfodydd y panel ymgynghorol.

Byddwn hefyd yn eich enwi fel aelod o banel ymgynghorol y Comisiynydd ar wefan y Comisiynydd, a gallwn eich enwi fel aelod o'r Panel yn adroddiad blynyddol a chyfrifon y Comisiynydd.

Os oes gennych unrhyw bryderon am gael eich adnabod, gofynnir i chi godi eich pryderon gyda Phennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad y Comisiynydd, sydd hefyd yn swyddog Diogelu Data i'r sefydliad.

Cadw eich gwybodaeth

Byddwn ni'n cadw eich gwybodaeth bersonol, holl gofnodion a dogfennau cysylltiedig y Panel Ymgynghorol ac unrhyw fanylion taliadau yn unol â'n Polisi Cadw Dogfennau — mae copi o hwn ar gael ar gais gan Bennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad y Comisiynydd.

Eich hawliau

Yn amodol ar eithriadau, a'r sail ar gyfer prosesu eich gwybodaeth, mae'n bosibl y bydd yr hawliau canlynol ar gael i chi:

- Yr hawl i gael mynediad i'ch data personol;
- Yr hawl i gywiro data personol sy'n anghywir;
- Yr hawl i ddileu data personol;
- Yr hawl i gyfyngu ar y prosesu a wneir;
- Yr hawl i wrthwynebu prosesu data personol; a'r
- Hawl i beidio â bod yn destun penderfyniadau awtomatig.

Os ydych am ymarfer unrhyw hawliau, neu gael rhagor o wybodaeth am yr hawliau sydd ar gael i chi, cysylltwch â Swyddog Diogelu Data'r Comisiynydd (manyllion cyswllt isod).

Â phwy dylech chi gysylltu os bydd gennych chi gwestiynau neu bryderon

Comisiynydd Plant Cymru yw rheolydd y data at ddibenion Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data, a Deddf Diogelu Data 2018.

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau neu bryderon ynghylch sut mae Comisiynydd Plant Cymru yn prosesu data personol, neu os ydych am ymarfer unrhyw hawliau perthnasol, cysylltwch â'r Pennaeth Cyfathrebu a Pherfformiad, Sara Jermin:

Cyfeiriad postio: Comisiynydd Plant Cymru, Tŷ Ystumllwynarth, Llys Siarter, Ffordd Ffenics, Llansamlet, Abertawe SA7 9FS

E-bost: post@complantcymru.org.uk

Os ydych chi'n dal yn anfodlon, gallwch gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Cyfeiriad Post: Wycliffe House, Water Lane, Wilmslow, SK9 5AF

Cyfeiriad Gwe: www.ico.org.uk

Rhif ffôn: 0300 123 1113